

Chwarae dros Gymru

Rhifyn 12 GWANWYN 2004



NEWYDDION CHWARAE A GWYBODAETH GAN Y SEFYDLIAD CENEDLAETHOL DROS CHWARAE

ASGC I GYNNWYS GWEITHWYR CHWARAE

Trafodwyd syniadau am ddynesiad newydd at arolygu cynlluniau chwarae mewn cyfarfod diweddar rhwng Chwarae Cymru a'r Arolygiaeth Safonau Gofal. Dywed yr ASGC:

Mae Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu pob math o osodiad gofal dydd ar gyfer plant dan wyth oed. Mae dros 4,500 gosodiad o'r fath yng Nghymru ar hyn o bryd – yn amrywio o feithrinfeydd mawr hyd at gynlluniau chwarae gwyliau a gynhelir am ddim ond dwy neu dair wythnos y flwyddyn yn ystod gwyliau haf ysgolion.

Fel y gwyddom, mae gwerth rhoi cyfleoedd i blant ddysgu drwy chwarae -

Cymdeithasol lleol yng Nghymru. Daeth dyfodiad ASGC â'r holl arolygwyr hyn ynghyd i weithio i un corff, sy'n rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

A siarad yn gyffredinol, daeth arolygwyr Dan 8 at yr ASGC gyda chymwysterau a phrofiad o weithio mewn gwaith cymdeithasol, addysg neu waith meithrinfa. Wrth i brofiad gynyddu, mae'r ASGC yn cydnabod yn fwyfwy y fantais o fod ag ystod sgiliau ymhlith ei staff yn gweithio ar draws yr holl wahanol fath o osodiadau. Nid oes unrhyw amheuaeth fod pawb yn manteisio o rannu sgiliau a phrofiad – yn arbennig mewn meysydd arbenigol.

Mae maes gwaith chwarae yn enghraifft

ARGYMHELLION STRATEGAETH

CHWARAE PAROD I FYND

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno argymhellion i Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru yw 12 Mawrth.

Bu hyn yn gyfle i sefydliadau yn gysylltiedig â chwaraeon yng Nghymru i gywain a chyflwyno syniadau ar gyfer Cymru cyfeillgar-i-chwarae sy'n rhoi anghenion chwarae plant yn uchel ar y rhestr blaenoriaethau. Yn y broses, mae'r grŵp wedi ymgynghori gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru o amrediad eang o adrannau, o'r rhai yn anadlu bywyd i gynlluniau iechyd, i'r rhai sy'n gyrru Prifffyrdd. Bydd gan yr argymhellion gwmpas eang oherwydd bod chwarae mor ganolog i bob agwedd o fywydau plant gan gyffwrdd ar bron bob maes o wneuthur polisi.

Daliwn ein hanadl wrth ddisgwyl ymateb Jane Hutt AC (Gweinidog Plant).

GWERTHOEDD A THYBIAETHAU GWAITH CHWARAE - ADOLYGIAD

Ddiwedd 2003 derbyniodd Chwarae Cymru gyllid tymor byr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu'r Gwerthoedd a Thybiaethau Gwaith Chwarae sy'n sylfaen i NVQ Gwaith Chwarae ac yn strwythuro'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar Waith Chwarae. Bydd y broses ymgynghori yn dechrau ym mis Mawrth a rhagwelwn y bydd yr adolygiad wedi ei gwblhau erbyn dechrau mis Mai.

Datblygwyd y Tybiaethau a Gwerthoedd gwreiddiol ar adeg pan oedd NVQ Gwaith Chwarae yn cael eu drafftio, ac er yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth o chwarae a gwaith chwarae bryd hynny, ni fu llawer o ymgynghori arnynt ac nid ydynt yn adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf o fewn y proffesiwn.

Yn ystod yr adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar Lefel 2 a gynhaliwyd gan SPRITO (nawr SkillsActive) yn 2002, daeth yn amlwg y teimlai llawer o fewn y sector gwaith chwarae fod angen adolygu'r Tybiaethau a Gwerthoedd Gwaith Chwarae.



yn arbennig drwy fynychu cynllun chwarae – yn cael ei gydnabod yn ehangach, ac mae'r maes gwaith yn datblygu yn gyflym. Dim ond ar gyfer plant dros wyth y mae rhai cynlluniau chwarae yn darparu sy'n golygu eu bod yn parhau y tu allan i gylch gorchwyl ASGC. Mae eraill yn gweithredu ar gyfer ystod oedran ehangach a gall plant mor ifanc â phump oed fynychu. Mae cynlluniau o'r fath yn gorfod cofrestru gyda'r ASGC, cael eu harchwilio o leiaf unwaith y flwyddyn, ac, wrth gwrs, yn amodol ar weithredu gorfodaeth os oes angen.

Cyn i Ddeddf Safonau Gofal 2000 ddod i rym yn Ebrill 2002, roedd yn rhaid i'r holl ddarpariaeth gofal dydd ar gyfer plant dan 8 gofrestru gyda'r awdurdod lleol yn yr ardal lle gweithredai. Bryd hynny roedd yr arolygwyr Dan 8 yn gweithio i unrhyw un o'r 22 Adran Gwasanaethau

dda o hyn felly mae'r ASGC yn edrych ar y posibilrwydd o gyflogi gweithwyr chwarae profiadol a/neu gyda chymwysterau ar secondiad i rai o wyth Swyddfa Ranbarthol ASGC. Ar ôl cynnod sefydlu byr, fe'u hawdurdodir i weithio fel arolygwyr ASGC.

Gofynnir i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cael eu hystyried ar gyfer secondiad i ysgrifennu at Swyddfa Genedlaethol ASGC gan roi eu manylion personol yn ogystal ag amlinelliad o'u profiad a'u cymwysterau.

Y cyfeiriad yw:

ASGC – Swyddfa Genedlaethol Personél, Hyfforddiant a Datblygu Unedau 4/5, Cwrt Charnwood Parc Nantgarw CAERDYDD CF15 7QZ

parhad td4 >

ADOLYGIAD GWAITH CHWARAE yn www.playwales.org.uk

GOLYGYDDOL

Wrth edrych yn gyflym drwy gopi diweddar o'r Western Mail, mae erthyglau ar ordewdra ymhlith plant, defnyddio teledu fel dyfais gofalu am blant ac adroddiad am ddamwain "cerrig beddau" (llanc o Gymru yn chwilio am risg drwy neidio oddi ar graig ac yn torri ei goes pan gollodd y don oedd i fod i weithredu fel clustog iddo). Ar yr un pryd mae adroddiadau yn y wasg Brydeinig am ganslo ras grempog flynyddol mewn ysgol oherwydd cost gynyddol yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Mae'n glir fod pryderon cynyddol am gyflwr ein plant, yn ogystal ag anghrediniaeth am ormodeddu hurt diwylliant sy'n or-ymwybodol o iechyd a diogelwch ac ymgyfreitha.

Nid oes angen athrylith i ddeall os nad ydym yn annog ein holl blant i fod yn actif a chwarae, ac os na roddwn gyfleoedd i'n holl blant i gymryd risg fel rhan o'u datblygiad iach, yna bydd gennym boblogaeth anffit, dew a goddefol, y bydd rhai ohonynt heb gael y cyfle i ddelio gyda risg mewn amgylchedd dan arolygiaeth, yn chwilio am wefr mewn amgylchiadau peryglus a heb fod â'r sgiliau i'w drafod. Bu'r materion hyn yn allweddol wrth gyflwyno argymhellion synnwyr cyffredin ar gyfer strategaeth chwarae ar gyfer ein gwlad a fydd yn ffurfio rhan o fuddsoddiad cyfannol yn ein plant.

Cytunodd y Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae yn unfrydol y dylai Darpariaeth Chwarae yng Nghymru roi cyfleoedd i blant gymryd risgiau. Mae posibilrwydd y bydd y mater yn ysgogi trafodaeth yn yr adolygiad o'r tybiaethau a gwerthoedd gwaith chwarae. Mae'n aml yn gadael darparwyr chwarae a gweithwyr chwarae

yn y canol rhwng dealltwriaeth ddamcaniaethol o pam fod risg yn llesol, a phryderon am ragolygon cerydd rhieni a phosibilrwydd ymgyfreitha. Gobeithiwn y bydd y ddau brosiect sylweddol sydd gennym ar y gweill ar hyn o bryd (yr argymhellion strategaeth a'r adolygiad) yn helpu i egluro'r mater, a chefnogi pobl yn gweithio yn y maes.

Yn olaf ond nid yn lleiaf mewn unrhyw fodd, llongyfarchiadau i ASGC am gynnyg secondiadau i weithwyr chwarae profiadol. Mae bellach lawer mwy o botensial y medrwn rannu gwell dealltwriaeth o'n priod rolau, a'r ffyrdd mwyaf effeithlon o godi ansawdd darpariaeth chwarae plant. Gadewch i ni obeithio fod y cynllun hwn yn llwyddiant ac y caiff y buddion eu teimlo yn yr holl ddarpariaeth chwarae cofrestredig yng Nghymru.

Mike Greenaway
Cyfarwyddyd

CYNNWYS

| | |
|---|------|
| • Golygyddol | T 2 |
| • O Ddifrif am Chwarae | T 2 |
| • Sir y Fflint yn Chwarae dros Iechyd | T 3 |
| • Tirfithriad yn Nhehopcyn | T 3 |
| • Rhowch Gynnig Arni | T 3 |
| • Camau Cadarnhaol ar yr Ynys | T 3 |
| • Dychmygwch | T 4 |
| • Tybiaethau Gwaith Chwarae Cywir | T 5 |
| • Chwarae yn Sweden | T 6 |
| • Gwaith Maes ar gyfer Ffermwyr a Garddwyr Cymunedol | T 8 |
| • Plant dan Ofal yn rhoi eu Barn ar Gyfarwyddyd Chwarae | T 8 |
| • Diwrnod Chwarae | T 9 |
| • Dyna'r Ysbryd | T 9 |
| • Cynorthwy-ydd Swyddfa Newydd | T 9 |
| • Ystyried Gwaith Chwarae? | T 9 |
| • Digwyddiadau | T 10 |
| • Codi Arian | T 10 |

O Ddifrif am Chwarae

Cafodd adroddiad yr adolygiad a gynhaliwyd ledled Prydain y llynedd ei lansio ym mis Ionawr. Cafodd "Getting Serious About Play", a ariannwyd gan ddwy o adrannau Llywodraeth y DG, ei lansio gan Frank Dobson ym maes chwarae Coram's Fields yng nghanol Llundain.

Er fod y broses adolygu yn cwmpasu'r cyfan o'r DG, mae casgliadau ac argymhellion yr adroddiad yn benodol i Loegr. Yng Nghymru mae'r adroddiad wedi rhoi ystyriaeth i argymhellion Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer strategaeth chwarae i Gymru.

Geilw'r adroddiad am ddefnyddio dyfarniad cronfa loteri o £200m i wella a chreu miloedd o leoedd lle gall plant chwarae'n rhydd ac yn ddiogel.

Dylai'r mynediad iddynt fod yn ddi-dâl.

Dylid canolbwyntio cyllid ar ardaloedd a grwpiau gyda'r mynediad tlotaf i gyfleoedd chwarae ansawdd uchel, yn arbennig plant anabl.

Dylai rhan fwyaf y cyllid gefnogi prosiectau enghreifftiol sy'n dilyn a hyrwyddo arfer gorau. Dylai cyllid fod ar gael hefyd i gefnogi dynesiadau newydd.

Mae'r adroddiad yn cydnabod yr angen i gynnwys plant a'r

gymuned ehangach wrth benderfynu beth sy'n gweithio orau iddynt. Mae hefyd yn cefnogi'r achos dros gyflogi gweithwyr chwarae.

Dylai'r Gronfa Cyfleoedd Newydd werthuso effaith y prosiectau chwarae a gyllidant ar blant a phobl ifanc, rhieni a chymunedau a hefyd adeiladu cronfa ddata o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw.

Mae'n argymhell y dylai awdurdodau lleol benodi pencampwr chwarae a datblygu dynesiad strategol i sicrhau cyllid tymor-hir ar gyfer chwarae.

Mae argymhellion pellach ar fanylion sut y dylid dosbarthu'r arian.

Medrir gweld yr adroddiad drwy ddefnyddio ein tudalen gwe Safleoedd Defnyddiol yn www.playwales.org.uk lle mae wedi ei restru fel Polisi Chwarae DG/UK Play Review, neu gweler gwefan y DCMS yn www.culture.gov.uk/publications

I gael copi caled cysyllter â tiffany.denny@culture.gsi.gov.uk

Annog elusennau plant i gael polisïau amddiffyn

Mae'r Comisiwn Elusennau yn rhybuddio elusennau plant eu bod yn torri'r gyfraith os ydynt yn gweithio heb bolisi amddiffyn ar gyfer oedolion yn gweithio gyda phlant. Daw ar ôl i'r 80 o'r 1,000 o elusennau a arolygwyd gan dîm ymweliad yr adolygu fethu darparu polisi.

Chwarae dros Gymru

Cyhoeddir gan Chwarae Cymru deirgwaith y flwyddyn. Dylid cyfeirio pob gohebiaeth ac ymholiadau at y Golygydd yn:

Chwarae Cymru, Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

Ffôn: 029 2048 6050 Ffacs: 029 2048 9359 E-bost: mail@playwales.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig. 1068926

Nid barn Chwarae Cymru o reidrwdd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr yma. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Bydd Chwarae Cymru yn cynnwys mewnddodion a hysbysebion yn y cylchlythyr hwn (cysyllter â Kathy Muse yn y cyfeiriad uchod i gael prisiau) fodd bynnag, nid ydym yn ardstio unrhyw rai o'r cynnyrch neu'r digwyddiadau a hysbysebir yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick Business Services Cyf. Ffôn: 029 2074 1150. E-bost: sales@carrickbusiness.co.uk Lluniau Cartŷn gan Les Evans.

Sir y Fflint yn Chwarae Dros Iechyd

Mae prosiect newydd, y cyntaf yn Sir y Fflint, ar fin cyflogi dau o weithwyr i gynghori ar effeithiau difreintiad chwarae ar les pobl ifanc, a manteision iechyd darparu cyfleoedd chwarae yn y gymuned. Cyllidir y prosiect dwy flynedd gan Fyrddau Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Bryn Gwalia, yr Wyddgrug a Ward y Castell, Y Fflint, cronfa Cymorth y Cynulliad Cenedlaethol a Phrosiect Calon Sir y Fflint.

"Er yr ymddengys Sir y Fflint yn lle cymharol iach i fyw ynddo, mae data ar gyfer yr holl sir yn debygol o guddio gwahaniaethau sylweddol rhwng adrannau o'r boblogaeth, neu rhwng gwahanol ardaloedd. Mae sylw i achosion sylfaenol afiechyd - tloidi/difreintiad, ysmegu, diet wael a dim digon o weithgaredd corfforol yn hanfodol" - dogfen Asesu Iechyd Sir y Fflint.

TIRLITHRIAD YN NHREHOPCYN

Achosodd y stormydd a ysgubodd drwy Gymru ddiwedd Ionawr/dechrau Chwefror dirlithriad yn Nhrehop cyn ger Pontypridd. Yn anffodus cafodd yr ardal chwarae i blant ei dinistrio'n llwyr.

Llun diolch i'r South Wales Echo



RHOWCH GYNNIG ARNI

Rydym yn awyddus i gyhoeddi barn a sylwadau plant ac oedolion, ac i glywed am enghreifftiau o arfer da mewn darpariaeth chwarae yng Nghymru, felly rhowch ysgrifbin ar bapur neu ddechrau tapio'r bysellfwrdd yna. Os nad ydych yn teimlo'n ddigon hyderus am ysgrifennu, medrwn eich helpu i lunio eich erthygl. Rydym hefyd yn awyddus i gyhoeddi lluniau cyhyd â bod y plant dan sylw, a'u rhieni, wedi rhoi caniatâd. Yr ydym, wrth gwrs, yn cadw'r hawl i olygu.

Os hoffech gyfrannu at Chwarae dros Gymru cysylltwch â Gill Evans yn ein swyddfa genedlaethol yng Nghaerdydd ffoniwch **029 2048 6050** neu anfon neges e-bost at gill@playwales.org.uk.

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru deirgwaith y flwyddyn ar hyn o bryd, gyda rhifynnau Gwanwyn, Haf a Hydref. Rydym hefyd yn cyhoeddi newyddion am chwarae yng Nghymru ar ein gwefan fel y'i derbyniwn yn y swyddfa.

Camau Cadarn ar yr Ynys

Mae Ynys Môn yn ymateb yn gadarnhaol i ofynion i rhoi proffil uwch i chwarae ledled yr Ynys.

Ar ôl blynyddoedd o ddatganoli cyfrifoldeb o'r Cyngor Sir i gynghorau cymuned, oedd yn gorfod ymdopi gyda chyllid annigonol, cafodd cyflwr gwael ac mewn rhai achosion gyflwr peryglus darpariaeth chwarae ar yr Ynys ei ddangos mewn adroddiad Chwarae Cymru ddwy flynedd yn ôl. Medrech fod wedi gweld y cyhoedduswydd niweidiol yn y wasg leol a rhanbarthol.

Oherwydd hyn penderfynodd y Cyngor Sir gymryd rôl arweiniol mewn partneriaeth i wrthdroi'r sefyllfa, a bu'r Adran Addysg a Hamdden yn ganolog wrth sefydlu Partneriaeth Chwarae Ynys Môn yn hydref 2003. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Sir, Cynghorau Tref a Chymuned, Sector Gwirfoddol a Llais Ni, Fforwm Ieuenctid y Sir.

Ei brif nod yw "cyfoethogi profiadau chwarae plant a phobl ifanc Ynys Môn, drwy gydweithredu effeithlon i wella cyfleusterau a datblygu gweithgareddau chwarae."

Caiff y Bartneriaeth ei chefnogi yn fuan gan Swyddog Datblygu Chwarae llawn-amser, a fydd â thair prif amcan:

- cynhyrchu Strategaeth Chwarae 5-mllynedd i'r Sir
- cefnogi cymunedau yn eu hymgais i wella neu sicrhau darpariaeth chwarae newydd
- cydlynu Rhaglenni Chwarae Mynediad Agored ar yr Ynys.

Gyda dynesiad cydlynus at faterion chwarae, mae optimistaeth o'r diwedd y gall y Bartneriaeth wneud gwelliannau gwirioneddol ar gyfer lles plant a phobl ifanc.

I gael manylion pellach cysyllter ag Aled Roberts, Gwasanaeth Hamdden a Chymunedau Ffôn 01248 762912

ADOLYGIAD GWERTHOEDD A THYBIAETHAU CHWARAE

<parhad o dudalen 1

Bydd y mudiadau cenedlaethol sy'n cefnogi gwaith chwarae a hyfforddiant gwaith chwarae yn y tair cenedl arall yn y Deyrnas Gyfunol yn cefnogi'r adolygiad. Maent yn cynnwys Playboard Northern Ireland, Play Scotland, Children's Play Council, SkillActive, Playlink, London Play, Undeb y Gweithwyr Cymunedol a leuenctid a'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar Hyfforddiant mewn Gwaith Chwarae.

Gobeithiwn sicrhau datganiad cryno a chadarn, a gefnogir gan atodiadau, fydd yn gwasanaethu'r proffesiwn gwaith chwarae am y dyfodol rhagweladwy.

Yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau amser a orfodwyd arnom yn ein cytundeb cyllid, bu'n rhaid i ni wneud rhai penderfyniadau brys parthed y broses ddrafftio ac ymgynghori, ac fel canlyniad ni fu'n bosibl i gynnwys eraill ym mhob agwedd o sefydlu'r adolygiad.

Oherwydd hynny rydym wedi cyflogi Bob Hughes i arwain yr adolygiad. Rydym wedi gweithio'n llwyddiannus gyda Bob o'r blaen ac mae'n ymgynghorydd blaenllaw yn y maes gwaith chwarae. Mae wedi sicrhau cymorth dau o gyd-feddylwyr Gordon Sturrock (Prifysgol Dwyrair Llundain) a Mick Conway (cyd-awdur Quality in

Play). Byddant yn drafftio dogfen gychwynnol ar gyfer y broses ymgynghori. Bydd hyn yn seiliedig ar egwyddorion cadarn sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at bwrpas a dulliau ein gwaith gyda phlant, a disgwylw'n iddo ysgogi meddwl a thrafodaeth. Man cychwyn fydd y ddogfen, a bydd yn naturiol yn newid drwy'r broses ymgynghori cyn y lluniwn ddatganiad terfynol.

proses ymgynghori

Mae'n bwysig i ni fod y broses ymgynghori yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth, a'i bod yn sicrhau consensws o feddwl y proffesiwn. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i wneud y broses mor dryloyw ag sydd modd, ac i roi cymaint o gyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ag y medrwn.

Cynhelir yr ymgynghoriad ar ein gwefan lle bydd deunydd ategol. Os oes unrhyw un yn dymuno cymryd rhan ac nad oes ganddynt fynediad i'r Rhyngwyd, gofynnir iddynt gysylltu â ni i gael diweddariadau rheolaidd ar bapur.

Gofynnir i bawb sy'n cymryd rhan yn y broses ymgynghori i ddweud pwy dydynt, ac o ba broffesiwn y maent, fel y

medrir rhoi eu hymatebion mewn cyd-destun.

Cymryd rhan

Mae hwn yn gyfle i'r proffesiwn gwaith chwarae i 'wneud ei feddwl ei hunan', penderfynu ar ei agenda ei hunan a'i 'dweud hi fel y mae'. Rydym yn awyddus iawn fod gweithwyr chwarae o bob rhan o'r DG yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac yn dweud wrthym am eu barn. Po fwyaf o weithwyr chwarae sy'n cymryd rhan, y mwyaf o hygrededd fydd gan y canlyniad.

Pan ymunwch â'r ymgynghoriad ar ein gwefan, gofynnir i chi lenwi ffurflen fer ac yna nodi os ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda phob elfen o'r gwerthoedd a'r tybiaethau, a bydd cyfle hefyd i roi sylwadau.

Oherwydd fod y gwaith yn dibynnu ar gyllid tymor byr mae peth pwysau i'w orffen yn fuan, ac mae'r cyfnod ymgynghori yn parhau am chwe wythnos. Fodd bynnag, os daw'n amlwg ein bod yn annhebyg o ddod i gonsensws byddwn yn ymestyn yr ymgynghoriad i ganiatáu ystyried newidiadau ychwanegol.

E-bost: info@playwales.org.uk

Gwefan: www.playwales.org.uk/values

Ffôn: 029 2048 6050



Tybiaethau a Gwerthoedd Cyfredol Gwaith Chwarae

Er fod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn canolbwyntio ar ac yn disgrifio swyddogaethau, maent yn seiliedig ar nifer o dybiaethau a gwerthoedd (yr athroniaeth) sy'n sylfaen i arfer da mewn gwaith chwarae. Dyma rai o'r tybiaethau a'r gwerthoedd cyfredol sy'n cael eu hadolygu:



Tybiaethau

Y dybiaeth gyntaf yw fod chwarae plant yn ymddygiad a ddewisir yn rhydd ac a gyfeirir yn bersonol a'i gymell o'r tu mewn. Drwy chwarae, gall plant ymchwilio'r byd, a'u perthynas ag ef, gan amlygu drwy'r amser amrediad hyblyg o ymatebion i'r heriau y deuant ar eu traws. Drwy chwarae, mae plant yn dysgu ac yn datblygu fel unigolion.

Yr ail dybiaeth yw tra gall plant chwarae heb anogaeth neu help, gall oedolion, drwy ddarparu amgylchedd dynol a ffisegol addas, hyrwyddo cyfleoedd yn sylweddol i'r plentyn i chwarae yn greadigol ac felly ddatblygu drwy chwarae.

Yn y ffordd hon, mae'r gweithiwr chwarae cymwys bob amser yn anelu i roi cyfleoedd i'r plentyn unigol i gyflawni eu potensial llawn, tra'n bod yn ofalus i beidio rheoli cyfeiriad neu ddewis y plentyn.

Gwerthoedd

1. Darperir cyfleoedd chwarae mewn nifer o osodiadau (e.e. awdurdod lleol, gwirfoddol neu fasnachol) ar gyfer plant gydag amrywiaeth o anghenion. Mae gan waith chwarae cymwys bob amser y gwerthoedd sylfaenol dilynol heb roi ystyriaeth i amrywiaeth diwylliannol a chymdeithasol.
2. Dylai chwarae ymrynhau plant ynghanol y broses, a dylai'r cyfleoedd a ddarperir a'r sefydliad sy'n eu cefnogi, eu cydlynu a'u rheoli, bob amser ddechrau gydag anghenion y plentyn a chynnig hyblygrwydd digonol i'w hateb.
3. Dylai chwarae ymrynhau plant a chadarnhau a chefnogi eu hawl i wneud dewisiadau, darganfod eu datrysiadau eu hunain a'u galluogi i ddatblygu ar eu cyflymder eu hunain ac yn eu ffordd eu hunain.

4. Er y gall chwarae weithiau gael ei gyfoethogi gan gyfranogiad gweithiwr chwarae, dylai oedolion bob amser fod yn sensitif i anghenion plant a byth geisio rheoli chwarae plentyn cyhyd â'i fod yn aros o fewn ffiniau diogel a derbyniol.
5. Mae gan bob plentyn hawl i amgylchedd chwarae sy'n ysgogi ac yn darparu cyfleoedd am risg, herio a thwf hyder a hunan-barch.
6. Nid yw'r amgylchedd cyfoes y mae llawer o blant yn tyfu ynddo yn addas ar gyfer chwarae diogel a chreadigol. Mae gan bob plentyn hawl i amgylchedd chwarae sy'n rhydd o berygl, sy'n sicrhau diogelwch corfforol a phersonol, a gosodiad lle mae'r plentyn yn teimlo'n gorfforol a phersonol ddiogel.
7. Mae pob plentyn yn unigolyn ac mae ganddynt hawl i gael eu parchu felly. Dylai pob plentyn deimlo'n hyderus fod yr oedolion sy'n gweithio ac yn chwarae â hwy yn gwerthfawrogi unigrywedd ac amlrywiaeth.
8. Mae agwedd ystyriol a gofalgar ar blant unigol a'u teuluoedd yn hanfodol ar gyfer gwaith chwarae cymwys a dylid ei arddangos ar bob amser.
9. Nid oes gan ragfarn yn erbyn pobl gydag anabledau, neu sy'n dioddef anfantais cymdeithasol ac economaidd, hiliaeth a rhywiaeth unrhyw le mewn amgylchedd sy'n ceisio hyrwyddo datblygiad drwy chwarae. Dylai oedolion sy'n ymwneud â chwarae bob amser hyrwyddo cyfle a mynediad cyfartal i bob plentyn a cheisio datblygu ymarfer gwrth-wahaniaethol ac agweddau cadarnhaol at y plant hynny sydd dan anfantais.
10. Dylai chwarae gynnig cyfleoedd i'r plentyn i ymestyn eu hymchwiliad a dealltwriaeth o'r byd ehangach ac fel canlyniad y gosodiadau ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol y tu hwnt i'w profiad uniongyrchol.
11. Mae chwarae o'i hanfod yn weithgaredd cydweithredol ar gyfer plant yn unigol a hefyd mewn grwpiau. Dylai gweithwyr chwarae bob amser annog plant i fod yn sensitif i anghenion eraill. Wrth ddarparu cyfleoedd chwarae dylent bob amser geisio cydweithio gyda'u plant, eu rhieni, cydweithwyr a swyddogion proffesiynol eraill a lle'n bosibl i wneud eu harbenigedd eu hunain ar gael i'r gymuned ehangach.
12. Dylai cyfleoedd chwarae bob amser gael eu darparu o fewn y fframwaith ddeddfwriaethol gyfredol sy'n berthnasol i hawliau, iechyd, diogelwch a lles y plentyn.
13. Mae gan bob plentyn hawl i amgylchedd ar gyfer chwarae, a rhaid i amgylcheddau o'r fath gael eu gwneud yn hygyrch i blant.

Pam ein bod yn eiddigeddus

Caiff y sylw a roddir i hawliau ac anghenion plant yng ngwledydd Llychlyn ei ddefnyddio'n aml fel model o arfer da. Mae ein Polisi Chwarae ein hunain a'r argymhellion ar gyfer strategaeth chwarae i Gymru yn anelu i feithrin parch tebyg at aelodau iau ein cymdeithas. Yma mae Marc Armitage, gweithiwr datblygu chwarae ac ymchwilydd llawrydd yn defnyddio ei brofiad helaeth i gymharu'r ddarpariaeth yn y DG gyda'r ddarpariaeth yn Sweden.

Dywedwyd y rhoddodd Sorensen, y pensaer o Ddenmarc a sefydlydd y mudiad meysydd chwarae antur, y gorau i'w ymdrechion i gyflwyno meysydd chwarae antur yn Sweden oherwydd fod pobl Sweden yn 'rhy daclus a chymen' i ddeall y cysyniad. Ar ôl byw a gweithio am rai blynyddoedd yng ngwledydd Llychlyn, yn arbennig Sweden, rwy'n credu fy mod yn deall beth oedd yn ei feddwl. Mae hon wirioneddol yn wlad o strydoedd glân, ac ydynt, mae'r bobl o ddifrif yn aros am y 'dyn gwyrdd' i ymddangos cyn croesi'r ffordd – ac maent yn edrych yn od ar bobl nad ydynt yn gwneud hynny!

Ymddengys fod y geiriau 'Sweden', 'plant' ac 'arfer da' yn mynd gyda'i gilydd. Maent yn haeddu llawer o'r bri hwn. Ond mae'n cymryd amser o fod yn rhan o'r system cyn sylweddoli nad yw popeth a wnânt yn Sweden yn well nag ym Mhrydain – ac mae rhai pethau y medrai Sweden ei ddysgu oddi wrthym ni. Mae problem ychwanegol hefyd: mae posibilrwydd fod llawer o'r arfer da yn Sweden yn dod yn bennaf o wahaniaethau diwylliannol eang, yn hytrach na dim ond gwahaniaeth mewn cyflwyniad. Gallai fod nad yw'r gwahaniaethau diwylliannol hyn yn rhywbeth sy'n trosglwyddo'n dda.

Yn ddaeryddol, mae Sweden yn wlad fawr gyda phoblogaeth fach. Mae ei harwynebedd tir 1.7 gwaith yn fwy na'r Deyrnas Gyfunol, ond mae'r boblogaeth 6.6 gwaith yn llai. Y canlyniadau yw dwysedd poblogaeth o tua 22 o bobl fesul cilomedr sgwâr, o'i gymharu â 244 o bobl fesul cilomedr sgwâr yn y DG. Mae'r ymdeimlad o ofod yn

rhywbeth sy'n ymdreiddio bywyd yn Sweden, hyd yn oed yn y dinasoedd. Er enghraifft mae maint cyfartalog cartrefi ar gyfer pob grŵp cymdeithasol yn fwy nag yn y DG, a chaiff cartrefi hefyd eu cynllunio mewn mwy o 'arddull agored' gyda phwyslais ar ansawdd golau. Mae dinasoedd yn llai cryno, yn gyffredinol wyrddach ac mae ganddynt mwy o ofod hamdden agored fesul pen o boblogaeth.

Byw cymunol yw'r norm. Mae mwy na 60% o boblogaeth Sweden yn byw mewn blociau o fflatiau yn hytrach na thai, ac yn annhebyg i'r DG, nid oes stigma yn gysylltiedig.

Cenedlaethol gorfodol ysgolion yn dweud y dylai ysgol ddatblygu gallu disgybl i ffurfio a mynegi safbwyntiau ethgol yn seiliedig ar wybodaeth a phrofiadau personol ac i barchu gwerth cynhenid pobl eraill.

Daw un o'r datganiadau cliraf o agwedd Sweden tuag at blant yn eu cydymffurfiaeth â Hawliau Plant. Nid yw'n ymddangos fod y mater hwn yn achosi yr un ofn ymysg rhieni yn Sweden ag a wnaiff ym Mhrydain efallai. Mae'n golygu fod parodrwydd diffuant i wrando ar yr hyn sydd gan blant i'w ddweud a gweithredu yn unol â'u sylwadau. Mae'r syniad y dylid gweld ac nid



Yn Sweden caiff stadau tai eu hadeiladu o amgylch meysydd chwarae fel nad oes unrhyw berygl traffig i blant.

Mae byw mewn grwpiau cymunol yn galw am rywfaint o gydweithrediad a goddefgarwch. Mae'r pwynt olaf hwn yn rhywbeth arall y mae Sweden yn adnabyddus amdano. Nid yw llawer yn sylweddoli y bu Sweden unwaith yn ben ymherodraeth Ewropeaidd bwysig oedd yn ymestyn yn ddwfn i'r hyn sydd bellach yn Rwsia, ond am dros ganrif cafodd y wlad ei datgan yn rhyngwladol niwtral. Meddir tybio fod y ddelwedd o Sweden heddychgar a goddefgar yn enghraifft arall o stereoteipio cenedlaethol, ond mae'n gyffredinol wir. Mae hyn hefyd yn arwain at agwedd oddefgar iawn tuag at blant a'r hyn a wnânt. Mae hyn yn rhywbeth sy'n dechrau yn y system addysg, lle mae Cwricwlwm

clywed plant yn parhau yn niwylliant Prydain; ond yn Sweden yr agwedd gyffredinol yw nid yn unig y dylai plant gael eu gweld a'u clywed, ond y dylid gofyn iddynt a pharchu yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

Mae'r cariad o ofod agored ac agwedd oddefgar real iawn pobl Sweden yn llesol iawn i'w plant yn nhermau'r cymdogaethau y maent yn byw ynddynt. Bydd hyd yn oed dro fer o amgylch unrhyw ardal breswyl yn Sweden yn dangos meysydd chwarae cyhoeddus o amgylch ym mhob man!

Mae llawer mwy nag a welech mewn unrhyw ardal ym Mhrydain, ac mae'r rhai a welir yn y canol ymysg cartrefi plant, yn hytrach nag wedi eu dodi ar ymyl y stad.

o bobl Sweden?

Cymharer y ffigurau hyn: yn Sir y Fflint (poblogaeth 148,600) mae tua dau o feysydd chwarae cyhoeddus fesul tua 1,000 o boblogaeth; mae gan ddinas Halmstad (poblogaeth 85,000) yn ne Sweden tua un maes chwarae cyhoeddus fesul 380 o boblogaeth.¹

Pan yn siarad gyda swyddogion komun (cyngor lleol), dylunwyr a chynllunwyr am ddarpariaeth gofod chwarae agored, mae ymdeimlad cryf o 'fel hyn y dylai fod', dan ddylanwad normau diwylliannol o ofod agored, byw cymunol, goddefiant a chlust i blant. Byddai'n cymryd cenedlaethau i geisio ail-greu agweddau fel hyn yn y DG a medrai yn y pen draw fod yn amhosibl ei gyflawni. Ond mae tric arall y gall pobl Sweden ddibynnu arno y medrem ystyried ei fabwysiadu. Ei enw yw Deddffwriaeth.

Mae rheoliadau adeiladu presennol yn Sweden yn dweud fod yn rhaid cael 'lekplats' (lle chwarae) penodol ar gyfer plant cyn-ysgol o fewn 50m o'u cartrefi, ac o fewn 100m o'u cartrefi ar gyfer plant mwy. Mae hyn yn arwain at feysydd chwarae sy'n gyffredinol yn llawer llai o ran arwynebedd a gyda llai o ddarnau o 'offer chwarae' ond llawer mwy o blanhigion a blodau a 'nodweddion chwarae amgylcheddol' nag yn y DG. Mae hyn yn esbonio i raddau y gwahaniaeth yn y ffigurau a nodir uchod. Ond y pwynt pwysig yw ei bod yn amhosibl adeiladu ardal dai yn Sweden heb ddarparu gofod digonol o ran nifer a maint ar gyfer plant ac sy'n agos i ac ymysg cartrefi pobl.

Mae'r pwynt olaf hwn yn arwydd o un gwahaniaeth arall pwysig rhwng y ddwy wlad: mae'r cyfuniad o leoliad meysydd chwarae cyhoeddus â defnydd cyffredin parthau 30cm (nid 30 mya) gyda mesurau traffig ffyrdd megis tympynnau cyflymder, agos at ysgolion, canolfannau gofal-dydd a meysydd chwarae yn golygu nad oes nemor ddim plant yn cael eu lladd mewn damweiniau ffyrdd yn Sweden.

Mae popeth yn swnio'n wych onid yw? Gydag eithriad posibl diffyg meysydd chwarae antur (mae rhai yn

Sweden, ond dim llawer), ymddengys i mi beintio darlun o'r byd delfrydol ar gyfer gweithwyr chwarae. Paciwc eich bagiau a symudwch! Ond ystyriwch hyn yn gyntaf. Mae'n anodd iawn i weithio gyda phlant yn Sweden heb addysg prifysgol. Ychydig iawn o bobl yn ymwneud â chwarae plant y bum mewn cysylltiad â hwy yn Sweden sydd heb addysg prifysgol. Ychydig iawn o bobl yn ymwneud â chwarae plant yn Sweden y deuais i gysylltiad â hwy na fu mewn prifysgol i ddysgu sut i'w wneud. Mae agweddau tuag at 'weithwyr heb gymwysterau' wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Er enghraifft, mae gosodiadau gofal-plant cymunedol dan arweiniad rhieni yn gyffredin yn Sweden ond mae rhai cydweithwyr sy'n ymwneud â'r sector yn sôn am newid cynyddol mewn agwedd yng nghyswllt recriwtio staff a gwirfoddolwyr, gan ddweud na fyddent yn ystyried cyflogi oedolion heb gefndir addysg uwch neu deimlo eu bod yn wynebu gwrthwynebiad pan wnânt hynny. Mae hyn yn ddiddorol o gofio'r ymgyrch bresennol tuag at broffesiynoli gwaith chwarae yn y Deyrnas Gyfunol, ac efallai y dylai hyn fod yn rhybudd.

I gloi, nid plentyn mohonof bellach ac ni fyddwn hyd yn oed yn barod i ymgeisio honni fod bywydau plant yn y Deyrnas Gyfunol yn waeth nag yn Sweden. Ond pe byddwn i'n dal i fod yn blentyn a fod gen i'r grym i ddewis, rwy'n gwybod lle'r hoffwn i

gael fy magu.

Marc Armitage

marc.armitage@playpeople.co.uk

PLAYPEOPLE – Datblygu, Addysg, Hyfforddiant ac Ymchwil Chwarae

Mae Marc Armitage yn awr yn byw yn Halmstad, dinas fechan yn ne Sweden. Ers dod yn weithiwr chwarae yn y Deyrnas Gyfunol yn y 1980au mae wedi gweithio fel gweithiwr chwarae cymdogaeth, gweithwyr grŵp meithrinfa, Swyddog Hyfforddiant gwaith chwarae a Swyddog Datblygu Chwarae awdurdod lleol. Mae'n awr yn gweithio dan yr enw PLAYPEOPLE, yn dysgu ac ymchwilio amrediad eang o bynciau chwarae a bywydau plant yn y Deyrnas Gyfunol a hefyd wledydd Llychlyn.

*Yr ydym yn cydnabod ei bod yn anwyddonol i gymharu ardal o batrymau anheddau cymysg, megis Sir y Fflint, gyda dinas, fodd bynnag ni fedrem ganfod unrhyw gymariaethau uniongyrchol yn nhermau maint poblogaeth yng Nghymru. Caiff yr ystadegau ardal chwarae ar gyfer Sir y Fflint eu rheoli gan ddangosyddion perfformiad a osodir gan y Swyddfa Archwilio.

Dychmygwch

- Rhaglen Ffantastig ar Chwarae Ffantasi

Anaml iawn y rhoddir sylw ar y teledu neu radio i ymchwilio agweddau chwarae, ond yn ddiweddar cyflwynodd y bardd Michael Rosen raglen ardderchog Let's Pretend ar chwarae ffantasi ar Radio 4 yn hwyr yn y nos.

Os na fedrwch ei chyrru drwy wefan Radio 4 yn www.bbc.co.uk/radio/factual a bod y meddalwedd addas gennych, medrwn e-bostio'r ffeil RealOne atoch fel y medrwn wrando arni ar eich cyfrifiadur. E-bostiwch info@playwales.org.uk.

Gwaith Maes ar gyfer Ffermwyr a Gerddwyr Cymunedol

Ychydig o blant yng Nghymru sydd â chyrchedd i gyfleoedd i dyfu bwyd a magu anifeiliaid, profiad dysgu sylfaenol sy'n mynd yn dda o fewn darpariaeth chwarae. Mae Ffederasiwn Ffermydd Dinas a Gerddi Cymunedol yn paratoi i gefnogi cynlluniau ffermio cymunedol, garddio a thyfu yng Nghymru, ac mae Chwarae Cymru yn eu cefnogi.



Mae'r Ffederasiwn yn elusen sy'n hyrwyddo, cefnogi ac yn cynrychioli grwpiau cymunedol sy'n ymwneud ag adfywiad lleol. Mae prosiectau ei aelodau yn amrywio o ofodau trefol bychan a achubwyd rhag datblygu, rhandiroedd a meysydd chwarae antur, i'r ffermydd cymunedol trefol mwyaf. Mae aelodaeth ar agor i grwpiau sy'n cefnogi, sydd eisieu sefydlu neu sydd eisoes wedi sefydlu fferm ddinas, gardd gymunedol neu brosiect tebyg.

Ar ôl ymgynghori gyda phrosiectau aelodau a darpar aelodau yng Nghymru, mae'r Ffederasiwn yn dymuno datblygu rhwydwaith cryfach yma drwy ei Raglen Gwaith Maes. Ar gyfer hyn mae'r Ffederasiwn yn recriwtio a hyfforddi ymarferwyr profiadol sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth generig i brosiectau presennol a phosibl ar sail sesiwn. Cânt yn eu tro eu cefnogi gan Gynghorwyr Rhanbarthol sy'n cyfateb ceisiadau am gymorth i'r gweithiwr maes gyda'r arbenigedd mwyaf perthnasol. Mae'r gweithwyr maes wedyn yn darparu ymweliadau safle,

cyngor technegol dros y ffôn, help gyda thrafodaethau, hyfforddiant a chyfleoedd rhwydweithio.

Mae llwyddiant a phoblogrwydd diamheuol y rhaglen mewn rhannau eraill o'r DG oherwydd ei gallu i gryfhau y cysylltiadau rhwng prosiectau sefydledig a rhai newydd drwy harnesu'r sgiliau presennol o fewn y mudiad ffermio, garddio a thyfu cymunedol.

Sut i Gymryd Rhan

Mae Chwarae Cymru yn cynnal cyfarfod bwrdd crwn o bartion â diddordeb ddydd Mawrth 27 Ebrill yn Nhŷ Baltig yng Nghaerdydd, lle bydd y Ffederasiwn yn amlinellu ei gynlluniau a cheisio cyngor am y ffordd orau ymlaen. Os hoffech wybodaeth bellach am waith y Ffederasiwn neu'r cyfarfod yng Nghaerdydd, mae croeso i chi gysylltu â Paul Jayson, Gweithiwr Datblygu.

Ffôn: **0117 923 1800**

neu e-bost paul@farmgarden.org.uk

Y Ffederasiwn yn Ysbryd

Bydd Ffederasiwn Ffermydd Dinas a Gerddi Cymunedol yn cynnal dau weithdy yng Nghynhadledd Chwarae Ysbryd Antur ym mis Mai – un yn canolbwyntio ar eu profiad o ddatblygu'r prosiect gwaith maes (a fydd yn berthnasol i unrhyw un sy'n dymuno sefydlu prosiect tebyg ar gyfer darparwyr chwarae) ac un arall ar gynnwys elfennau ar arddio a ffermio a reolir gan y gymuned mewn prosiectau chwarae.



Plant dan Ofal yn rhoi Barn am Gyfarwyddyd Chwarae

A wyddoch am unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n byw neu'n aros gyda gofalgwyr maeth neu mewn cartrefi plant? Os felly, ac y medrant gyrchu'r Rhyngwyd, efallai y bydd ganddynt ddi-ddordeb mewn gwybod am waith sydd gennym ar y gweill.

Rydym yn gweithio gyda Biwrô Cenedlaethol y Plant i ddatblygu deunyddiau ar gyfer gofalgwyr maeth a phreswyl i'w hannog i gefnogi chwarae plant a datblygu creadigol. Rydym yn frwd i ganfod beth mae plant yn feddwl ac mae gwefan lle medrant bostio eu sylwadau.

Cyfeiriad y wefan, sydd yn benodol ar gyfer plant a phobl

ifanc dan ofal, yw www.sonet.soton.ac.uk

Issy Cole Hamilton

Swyddog Polisi ac Ymchwil, Cyngor Chwarae Plant

Ffôn: **020 7843 6403**

Fideo Parthau Cartref Newydd

Mae 'Home Zones in the UK experience' yn adnodd fideo newydd ar gyfer grwpiau cymunedol a phroffesiynolion yn gweithio ar brosiectau parth cartref. Fe'i cynhyrchwyd gan Gyngor Chwarae Plant a Transport 2000ac mae ar gael gan Marston Book Services. Ffôn: 01235 485500 neu e-bost direct.orders@marston.co.uk

Diwrnod Chwarae - 4 Awst 2004 - Teuluoedd yn Chwarae

Ym Mlwyddyn y Teulu mae grŵp llywio Playday wedi penderfynu dathlu Teuluoedd yn Chwarae ac mae awgrymiadau yn cynnwys datgan 4 Awst yn ŵyl banc Diwrnod Chwarae i annog rhieni i chwarae gyda'u plant!

Mae arolygon yn awgrymu fod rhieni yn gofidio fod ganddynt cyn lleied o amser i chwarae gyda'u plant. Mae'r grŵp llywio (dan arweiniad y Cyngor Chwarae Plant a Chymdeithas y Plant yn Lloegr) wedi comisiynu pôl NOP i ofyn i blant rhwng 7 a 12 oed gyda phwy y maent yn chwarae a pha mor aml. Gofynnir i blant sy'n cymryd rhan

mewn prosiectau chwarae i gyflwyno gwaith creadigol am gael hwyl gyda'u teulu.

Rydym ni yn Chwarae Cymru wedi penderfynu cefnogi Diwrnod Chwarae drwy adeiladu ar y llwyddiant yn y cyfryngau y llynedd, a thrwy gynhyrchu cyfres o daflenni ar gyfer rhieni yn cynnig gwybodaeth ar chwarae a'r ffordd i gefnogi anghenion chwarae plant.

I gael gwybodaeth bellach **gweler www.playday.org.uk**

Dyna'r Ysbryd

Cynhelir pedwaredd cynhadledd Ysbryd Chwarae Antur yng Nghaerdydd ar 11 a 12 Mai.

Medrid dadlau mae ethos y maes chwarae antur yw'r un sy'n canoli mwyaf ar y plentyn mewn darpariaeth plant. Mae'n ymgorffori gwybodaeth o hawliau ac anghenion plant mewn oes pan ydym yn aml yn talu gwasanaeth gwefus ond yn methu cyflawni. O gofio am y miliynau o

blant y gweithiwn drostynt, mae meysydd chwarae antur yn bethau prin. Fodd bynnag, medrir defnyddio'r ethos yn llwyddiannus i ddarparu ar gyfer plant mewn unrhyw osodiad chwarae.



Cafodd y gynhadledd ei threfnu yn wreiddiol nid yn unig i ddathlu a chefnogi'r rhai sy'n gweithio ar feysydd chwarae antur, ond

hefyd i roi fforwm lle gall gweithwyr profiadol drafod, cyfrannu ac adnewyddu eu harfer gwaith. Rydym wedi gwahodd siaradwyr a threfnu gweithdai a thrafodaethau i ysgogi ac ysbrydoli. Bydd digon i gnoi cil arno yn ogystal â chyfarwyddyd ymarferol ar faterion mor gynhennus â chyflwyno tân i ddarpariaeth chwarae neu gadw anifeiliaid.

Cysylltwch â Chwarae Cymru i gael ffurflen archebu os hoffech fynychu. Ffôn 029 2048 6050 neu e-bost spirit@playwales.org.uk

Risg a Chwarae ar Feysydd Chwarae Antur

Mae Chwarae Cymru yn datblygu cyfarwyddyd ar hyn o bryd ar arolygiad diogelwch meysydd chwarae antur, sy'n cynnwys gwybodaeth gefndir yn ogystal â golwg gyffredinol ar ddeddfwriaeth berthnasol, a fframwaith ar gyfer arolygu ac asesu risg. Gobeithiwn ei gyhoeddi adeg y Pasg, a'i lansio yn ein cynhadledd Ysbryd. Gwerthir y cyfarwyddyd ar y bris gost, a bydd ar gael i is-lwytho ar y dudalen dalenni ffeithiau neu ein gwefan www.playwales.org.uk/factsheets

Yswiriant Meysydd Chwarae Antur

Bydd brocwyr yswiriant Astbury Wren yn trefnu gorchudd i Feysydd Chwarae Antur o fewn 24 awr.

Ffoniwch 01244 310574 e-bost broker@astbury-wren.co.uk

Cafodd ein cynorthwy-ydd swyddfa newydd, Phillipa Macleod, ei geni a'i magu yng Nghaerdydd, mae ganddi radd mewn Seicoleg, ac mae ganddi ysfa grwydro ...

Ddechrau 2003 es i deithio, yn dechrau yn Ne Ddwyrain Asia a chyrraedd arfordir gorllewinol America ym mis Gorffennaf. Roedd yn brofiad gwych a deuais gartref gyda llawer o atgofion (a rhywfaint o ddyled) ond roedd yn bendant ei werth ef! Rwy'n setlo mewn yn Chwarae Cymru (lle

mae fy synnwyr disgrifiwch yn helpu) ond yn y pen draw mae gen i uchelgais i ddysgu dramor, ac i fyw yng Nghanaada.



Ystyried Gwaith Chwarae?

Ydych chi eisiau gwybod mwy am rôl gweithwyr chwarae a gofynion a heriau gwaith chwarae? Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cynnal Diwrnod Ymwybyddiaeth Gwaith Chwarae ym Mhafiliwn y Fflint ddydd Mawrth 6 Ebrill 2004.

Mae'r Sir yn recriwtio ar gyfer rhaglen cynllun chwarae ar draws y sir yn Haf 2004 ac mae angen mwy na 100 o weithwyr chwarae. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gwybod am natur gwaith chwarae, a'i ofynion, er mwyn

mynd â'u cais ymhellach. Bydd ychydig o leoedd ar gyfer y rhai sy'n frwd i ddod draw ar y dydd i gael gwybodaeth.

Cysylltwch â'r Swyddfa Gwasanaethau Hamdden ar **01352 702456** i gofrestru eich diddordeb.

Ewch i www.playwales.org.uk i weld swyddi chwarae yng Nghymru neu i hysbysebu swyddi gwag yn ddi-dâl.

DIGWYDDIADAU

Cyflwyniad i Feysydd Chwarae Antur

23/24 Mawrth 2004

Yn dilyn llwyddiant seminar Chwarae Cymru y llynedd, dyma gyfle i bobl sy'n cynllunio i sefydlu meysydd chwarae antur yng Nghymru i ymchwilio rhai o'r materion perthnasol. Fe'i cynhelir yng Nghaerdydd. Cysyllter â Kathy neu Phil ar 029 2048 6050 neu e-bost introduction@playwales.org.uk

Iachau drwy Chwarae: Cyflwyniad i Chwarae fel Therapi

29 Ebrill – 2 Mai 2004

Diwrnod hyfforddiant yn Llundain a drefnwyd gan Community Insight. Cysyllter â 01793 512612 i gael ffurflen archebu.

Cynhadledd Genedlaethol CYWU 2004

27 Ebrill 2004

Bydd CYWU (yr Undeb Gymunedol a Gweithwyr Ifanc, sy'n cynnwys gweithwyr chwarae) yn cwrdd yn Derry, Gogledd Iwerddon. Cysyllter â Kerry ar 0121 244 3344 neu e-bost kerry@cywu.org.uk

Ysbryd Chwarae Antur

11 a 12 Mai 2004

Cynhadledd Brydeinig a drefnwyd gan Chwarae Cymru ar waith chwarae ac ethos meysydd chwarae antur. Siaradwyr a gweithdai i ysgogi ac ysbrydoli arfer da mewn gwaith chwarae. Cysyllter â Kathy neu Phil ar 029 2048 6050 neu e-bost spirit@playwales.org.uk

5edd Cynhadledd Genedlaethol ac Arddangosfa ar NVQ & SVQ Gwaith Chwarae

6 a 7 2004 Birmingham

Cysyllter â Meynell Games 01323 738380 neu e-bost conference@meynell-games.de

Codi Arian

Mae **Cynllun Grantiau Bach Gweithgareddau Gwyliau Haf** yn cefnogi gweithgareddau gwyliau ar gyfer plant rhwng 5-13 oed. Dodir pwyslais ar gynlluniau chwarae lleol bychan yn parhau 4-6 wythnos a grwpiau'n cynllunio egwyl haf neu weithgareddau arbennig ar gyfer ieuenctid dan anfantais, neu sydd ag anabledd. Mae'r grantiau o rhwng £200 a £400 ar gael ledled y Deyrnas Gyfunol.

Mae ffurflenni cais ar gael ar y dudalen fwletin a www.lankelly-foundation.org.uk neu drwy gysylltu â Barbara Garlick ar 01235 820044.

Cyfes godi arian newydd gan y WCVA

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) wedi cynhyrchu cyfes ddwyieithog newydd o ddalenni gwybodaeth ar godi arian, sydd ar gael o'u gwefan yn www.wcva.org.uk/content

Mae'r pynciau'n cynnwys golwg gyffredinol ar godi arian, technegau codi arian ac arfer da a chyflwyno eich achos dros grant, i enwi ond ychydig o'r pynciau. Mae copïau hefyd ar gael o'r Ddesg Gymorth ar 0870 607 1666, e-bost help@wcva.org.uk

Sefydliad Camelot – rhaglen trawsffurfio bywydau

Mae'r sefydliad yn darparu grantiau o £10,000-£90,000 i sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae'r Sefydliad yn gweithio gyda mudiadau sy'n cefnogi rhieni ifanc neu'r rhai mewn risg o ddod yn rieni ifanc, ceiswyr nodded ifanc, pobl iechyd gyda phroblemau iechyd meddwl a phobl anabl ifanc. Gweler y wefan yn www.camelotfoundation.org/translives/translives/cfm

Elusen Chase

Mae gan Elusen Chase arian ar gael ar gyfer elusennau cofrestredig, yn arbennig fentrau cymdeithasol sy'n ateb anghenion lleol. Mae grantiau o £1,000 i £30,000 ar gael i gefnogi celfyddydau cymunedol. Mae ganddynt ddiddordeb neilltuol mewn helpu elusennau i fynd â'u gwaith at bobl yn byw mewn ardaloedd gwledig. Manylion pellach yn www.chase-charity.org.uk

Ymddiriedolaeth Philip Henman

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi amrediad o gynlluniau. Gall roi grantiau unigol o hyd at £1,000 i elusennau yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y DG, a grantiau o rhwng £20 a £500 i elusen leol. Gweler y wefan yn www.djclark.com/pht/contact.html

GWOBRAU CYMUNEDOL B&Q YOU CAN DO IT

Cynigir bob blwyddyn i ugain o grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau yn y DG. Maent yn cynnwys hyd at £5,000 mewn gwerth o ddeunyddiau B&Q ar gyfer adnewyddu adeiladau grwpiau cymunedol neu brosiectau cymunedol. Cysyllter â 0845 300 1001. Gweler y wefan yn <http://www.diy.com>

Cronfeydd Mynediad

Mae'r wefan Cronfeydd Mynediad yn rhestru cyllid gan y Llywodraeth, y Loteri, Undeb Ewropeaidd ac amrediad o gyrff eraill. Mae'n cynnwys bwletin misol a hysbysiad e-bost sy'n caniatáu i chi gael gwybodaeth cyllido wedi eu e-bostio'n uniongyrchol atoch. Gweler y wefan yn www.access-funds.co.uk